Pwy sy? *Who is?*
'sy' - *who is/which is*

Themau - *Themes*

Pwy sy? *Who is?*
'sy' - *who is/ which is*

Patrymau Iaith - *Language patterns*

Pwy **sy**'n dda o flaen camera?	*Who is good in front of a camera?*
Beth **sy**'n bod?	*What's the matter?*
Faint **sy** mewn tîm?	*How many are in a team?*
Beth sy ymlaen?	*What's on?*

Ond mae 'sy' ar ganol y frawddeg yn golygu '*who is/which is*'. Does dim angen 'pwy'.
But 'sy' *mid sentence means who is / which is. There is no need for* 'pwy'.

Mae brawd gyda hi sy'n actor.
She's got a brother who is an actor.

Dw i wedi cael llythyr gan rywun sy'n gweithio i S4C
I've had a letter from someone who works for S4C.

Sy wedi / who has

Dyna'r dyn sy wedi lladd cariad y ditectif.
That's the man who has killed the detective's lover.

Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

SY / YW

Who is + definite noun/pronoun = Pwy yw

Pwy yw hi?	*Who is she?*
Pwy yw'r tiwtor?	*Who is the tutor?*

Hefyd / Also

Beth yw e?	*What is it?*
Faint yw e?	*How much is it?*

Who is + anything else = Pwy sy ...

Pwy sy'n siarad?	*Who is speaking?*
Pwy sy' na?	*Who is there?*

Hefyd / *Also*

Beth sy'n digwydd?	*What is happening?*
Faint sy'n mynd?	*How many are going?*
Beth sydd ar y teledu?	*What's on the television?*

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain / *Audio tasg*

Llenwch y grid.
Fill in the grid.

Enw	***gwybod am***
Ann	
Colin	
Katherine	
Matthew	
Mari	

Tasg fideo / *Video task*
Atebwch y cwestiynau hyn
Answer these questions.

Pwy sy eisiau te?
Beth sy ar y teledu?
Pwy sy ar goll?
Pwy sy eisiau siarad â'r ditectif?
Pwy sy wedi lladd cariad y ditectif?
Pwy sy'n ffonio James?
Pwy sy'n mynd i symud y cwpwrdd?

Sgript Sain – *Audio Script*

Cyfarfod rhwng Mr Davies ac aelod o'r staff.

Penn: Ga i air gyda chi am funud?

Gwenda: Wrth gwrs. Beth sy'n bod?

Penn: Dw i wedi cael llythyr gan rywun sy'n gweithio i S4C. Maen nhw eisiau tîm o'r ysgol i fynd ar raglen gwis newydd.

Gwenda: Faint o blant sy mewn tîm ?

Penn: Mae eisiau dau o blant. Pwy sy 'na ?

Gwenda: Mae Ann Davies Blwyddyn 5 yn gwybod popeth am anifeiliad. Mae hi'n byw ar fferm ac yn mynd i bob sioe anifeiliaid!

Penn: Mae Colin yn gwybod popeth am chwaraeon!

Gwenda: Beth am Katherine? Mae hi'n byw o flaen y teledu. Mae brawd gyda hi sy'n actor a chwaer sy'n canu yn y West End.

Penn: Mae hi wedi ennill sawl gwaith yn Eisteddfod yr Urdd.

Gwenda: Ydy.

Penn: Beth yw enw'r bachgen ym mlwyddyn 6 sy wedi ennill cystadleuaeth mathemateg eleni?

Gwenda: Matthew. Mae chwaer gyda fe ym mlwyddyn 5, Mari, sy'n dda iawn gyda hanes hefyd.

Penn: Wel, mae digon o blant yn yr ysgol sy'n gallu bod yn y tim. Mae eisiau un o'r staff hefyd. Pwy sy'n dda o flaen y camera?

Gwenda: Mae Mr Davies Blwyddyn 3 yn dda o flaen y camera.

Penn: Dw i'n cytuno! Iawn, diolch am eich help.

Geirfa

gair - *word*
llythyr - *letter*
rhaglen - *programme*
sawl gwaith – *several times*
cystadleuaeth - *competition*
hanes - *history*
o flaen – *in front of*
cytuno - *(to) agree*

Sgript Fideo - *Video Script*

SARA: Beth sy'n bod?

JAMES: Am faint mae hi'n aros?

NIA: Reit te. Pwy sy eisiau te? Sara?

SARA: O, hyfryd. Diolch, mam.

NIA: James?

JAMES: Dim i fi... dim diolch.

NIA: Beth sy ymlaen?

JAMES: Ffilm.

NIA: Pa fath o ffilm?

SARA: Ffilm dditectif.

NIA: O. Pwy yw e?

SARA: Ditectif yw e.

NIA: O. Beth sy'n bod arno fe?

SARA: Mae ei gariad e ar goll.

NIA: O. Ble mae hi?

JAMES: Dyn ni ddim yn gwybod eto.

NIA: O. Beth sy'n digwydd nawr?

SARA: Mae'r heddlu eisiau siarad â'r ditectif.

NIA: O. Pam?

SARA: Mae'r heddlu yn meddwl bod y ditectif wedi lladd ei gariad e.

NIA: O. Pwy sy'n siarad ar y ffôn? Dyn ni ddim yn gallu gweld ei wyneb e.

JAMES: Dyna'r dyn sy wedi lladd cariad y ditectif.

NIA: O. Pwy yw e?

JAMES: Dyn ni ddim yn gwybod!

NIA: O. Dw i ddim yn deall.

Ffôn yn canu.

NIA: Helo … ydy …. pwy sy'n siarad?

JAMES: Pwy sy na?

NIA: Arwyn. Mae e eisiau help i symud cwpwrdd.

JAMES: Arwyn. Sut mae! Wela i di mewn pum munud.

Geirfa

hyfryd – *lovely*
beth sy ymlaen – *what's on?*
ar goll – *lost*
lladd – *(to) kill*
wyneb - *face*
symud – *(to) move*
cwpwrdd - *cupboard*

Atebion - *Answers*

Tasg sain / *Audio task*

Enw	***gwybod am***
Ann	*anifeiliaid*
Colin	*chwaraeon*
Katherine	*y teledu/ canu*
Matthew	*mathemateg*
Mari	*hanes*

Tasg fideo / *Video task*

Pwy sy eisiau te? Sara a mam Sara.
Beth sy ar y teledu? Ffilm dditectif.
Pwy sy ar goll? Cariad y ditectif.
Pwy sy eisiau siarad gyda'r ditectif? Yr heddlu.
Pwy sy wedi lladd cariad y ditectif? Dyn ni ddim yn gwybod. / Y dyn ar y ffôn.
Pwy sy'n ffonio James? Arwyn.
Pwy sy'n mynd i symud y cwpwrdd? James ac Arwyn